Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Our Ref: CH18-004

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
Diane.McCrea@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Diane.McCrea@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 4453

David J Rowlands AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Ionawr 2018

Annwyl Mr Rowlands

**‘Deiseb P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd arfordirol Cymru ger Caerdydd’**

Diolch am eich llythyr ar 12 Ionawr 2018, yn amlinellu'r prif bwyntiau a godwyd yng nghyfarfod y pwyllgor deisebau ar 09 Ionawr. Mae ein hymateb i'ch pwyntiau islaw.

**Samplu gwaddod**
Ar sail y samplu a'r dystiolaeth yr ydym wedi'i dderbyn o'r blaen, rydym yn fodlon nad oes sail wyddonol gennym i gynnal samplu pellach yn fanwl, yn ymwneud â'r drwydded waredu uchod: Roedd canlyniadau samplu 2009 yn ddigonol i ni ddod i'r casgliad hwnnw bod y deunydd hwn yn addas i'w waredu yn safle dympio morol Cardiff Grounds.

Fodd bynnag, gan gydnabod budd y cyhoedd yn y mater, yn ystod cyfarfod â deilydd y drwydded ar 25ain Ionawr, gofynnwyd iddynt ystyried rhagor o samplu gwirfoddol yn fanwl er mwyn cael mwy o sicrwydd, ac rydym yn aros am eu hymateb. I gael sicrwydd cyhoeddus ychwanegol, rydym eisoes wedi gofyn i Cefas ymgymryd â dadansoddiad dos ymbelydredd ar samplau 2009 a bydd yn cadarnhau canlyniad yr asesiad hwnnw gyda'r pwyllgor ar ôl iddo gael ei gwblhau.

**Cyhoeddi canlyniadau**
Yn unol â dyletswydd a pholisi i fod yn agored ac yn dryloyw gyda'r canlyniadau hyn, maent ar gael i'r cyhoedd ac maent yn rhan o'n Cofrestr Gyhoeddus. Yn ogystal, gellir darparu'r dogfennau hyn ar gais. Os yw'n ymarferol, byddwn hefyd yn cynnwys dolenni i ddogfennau perthnasol ar ein gwefan fel cynnwys i'w lawrlwytho, lle rydym eisoes wedi sefydlu tudalen we benodol ar gyfer y Drwydded Hinkley sydd i'w weld yma:


https://naturalresources.wales/about-us/news-and-events/statements/marine-licence-to-dispose-dredged-material-off-the-coast-of-south-wales/?lang=cy

**Dadansoddiad o ymbelydredd**
Byddwn yn parhau i weithio gyda Cefas i sicrhau bod cyflwyniad y canlyniadau samplu yn nodi'n glir yr ystod lawn o radioniwclidau sydd wedi'u profi / eu sgrinio. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan.

**Safleoedd samplu ac astudiaethau gwasgaru**
Rydym wedi cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch y gweithgareddau samplu a monitro ymbelydredd sy'n cael eu cynnal yn Aber Hafren. Byddwn hefyd yn cysylltu â Cefas ynghylch unrhyw astudiaethau gwaredu ar safle Cardiff Grounds / Aber Hafren.

Byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth hon atoch cyn gynted ag y cawn.

Yr eiddoch yn gywir,



**Diane McCrea**

**Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chair, Natural Resources Wales**